# WILLIAMS, MOSES (bu farw 1819), gweinidog gyda'r Bedyddwyr Cyffredinol Trindodaidd, a gof

**Enw:** Moses Williams
**Dyddiad marw:** 1819
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr Cyffredinol Trindodaidd, a gof
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

brodor o Lanfynydd (Caerfyrddin), ond yn Llandyfân y bedyddiwyd ef, ac y dechreuodd bregethu - cyn 1792, gellid meddwl. Ni ddygymyddai â Chalfiniaeth nac â thueddiadau ' Methodistaidd ' y mwyafrif o'i gyd- Fedyddwyr; fe'i gwelir yn 1794, a thrachefn yn 1796 (*Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1930, 39 a 40) yn ochri yn y 'cwrdd chwarter' â'r blaid aswy, gan ddal (megis J. R. Jones o Ramoth) mai crediniaeth noeth yw 'ffydd.' Yn 1797, urddwyd ef yn weinidog Llandyfan, ac yn 1798 plannodd eglwys arall ym Mhontbren-araeth ym mhlwyf Llangadog. Pan ddaeth rhwyg 1799, aeth ef a'i ddwy eglwys allan o gymanfa'r Bedyddwyr Neilltuol, eto gan barhau'n Drindodwyr; croesawodd Williams ddyfodiad y genhadaeth Wesleaidd Gymraeg i'r ardaloedd hynny, a gwelir ef yn 1806 (*A History of Carmarthenshire*, ii, 253) yn pregethu yn y capel Wesleaidd yng Nghaerfyrddin. Pregethodd yng nghymanfa'r Bedyddwyr Cyffredinol yng Nghastellnewydd Emlyn fis Mai 1807 (*Monthly Repository*, 1807, 333), ond y mae'n eglur yn 1809 (ibid., 1809, 695) mai ' John Griffiths ' oedd ar y blaen erbyn hynny yn Llandyfân - am hwn, ac am hanes diweddarach yr achos (Undodaidd bellach) yno, gweler T. Oswald Williams yn *Ymofynnydd* 1930, 41-6. Bu cenhadaeth egnïol Griffiths yn ddraen yn ystlys Williams, a phrofodd ei arswyd rhag Undodiaeth yn drech na'r cymhellion a'i harweiniodd gynt i ymado a'r Bedyddwyr Calfinaidd. Derbyniwyd ef yn ôl i'w hen enwad yng 'nghwrdd chwarter' y Pasg, 1814, yn y Felin-foel; a dilynwyd ef (1815) gan y mwyafrif yn Llandyfan. Nid ymddengys iddo barhau i bregethu (yn sicr, ni bu ganddo ofalaeth wedyn); ymgynhaliai ar ei grefft fel gof gerllaw Abertawe. Bu farw fis Rhagfyr 1819; canmolir ef fel g r ' pwyllog, cydwybodol, a duwiol.'

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


D. Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (1839), 346, 362-3

a'r cyfeiriadau eraill uchod


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734006


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu